Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Dyffryn Banw
# Ysgol Cwm Banwy
# Llangadfan
# Ger y Trallng
# Powys
# SY21 0NW

**Dyddiad yr arolygiad:  Chwefror 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Dyffryn Banw

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Dyffryn Banw |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Dim |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwenllian Lansdown Davies |
| Person â gofal | Mirain Haf Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | Rhwng 18 mis a 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 4 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Cylch Meithrin – Dydd Llun, Mawrth a Gwener – rhwng 9.00 a 13.30 a dydd Mercher rhwng 9.00 a 15.00<br>Clwb Brecwast – Rhwng 8.00 a 9.00 yn ddyddiol o ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad ers ailgofrestru gydag AGC |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 28/02/2023 |

Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu ar y safle presennol ers Ionawr 2023. Cyn hynny, roedd yn Neuadd Bentref Llanerfyl. O ystyried hynny, mae arweinwyr wedi llwyddo'n dda i sicrhau bod y staff a'r plant wedi setlo'n dda a'u bod yn barod i ddysgu.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu amgylchedd dysgu ysgogol yn yr ardal allanol

A2 Sicrhau bod yr amcanion gwella yn glir, wedi eu seilio’n uniongyrchol ar ddysgu neu gynnydd y plant, ac yn hawdd i arweinwyr fesur eu cynnydd

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles:  Da

Mae bron bob plentyn yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau aeddfed am eu chwarae a'u dysgu. Maent yn symud o gwmpas y gwahanol ardaloedd yn hyderus ac yn dewis adnoddau'n synhwyrol i'w defnyddio yn eu chwarae. Er enghraifft, mae ychydig yn dewis chwarae rôl yn y gegin tra bod eraill yn chwarae gyda'r blociau neu anifeiliaid y fferm.

Mae'r bron pob un o'r plant yn cydweithredu'n dda iawn ac mae'r rhan fwyaf yn hapus i rannu eu teganau neu offer gydag eraill. Maent yn dangos empathi ac yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, maent yn dangos pryder pan fydd plentyn arall yn cwympo. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r ymarferwyr yn effeithiol. Mae'r plant lleiaf yn ymateb yn dda i'r ymarferwyr wrth iddynt gyfathrebu â nhw drwy ystum, er enghraifft wrth iddynt arwain â llaw neu bwyntio at adnoddau a theganau. Mae bron bob plentyn yn hyderus i fynd at ymarferwyr i rannu eu newyddion, i holi am rywbeth neu i ofyn am gymorth.

Mae gan y rhan fwyaf o blant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd â threfniadau dyddiol y lleoliad. Maent yn ymwybodol o'r drefn arferol, ac yn hyderus i sgwrsio, rhannu yn eu chwarae neu ryngweithio ag ymwelwyr trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, wrth drafod y tywydd gyda'i gilydd yn ystod amser cylch, mae un yn dweud, "mae'n bwrw glaw heddiw, mae cymylau yn yr awyr." Mae bron pob un yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn teimlo'n hollol gartrefol yno, wrth eu bodd yn mynychu, ac yn eiddgar i chwarae. Mae unrhyw blentyn sy'n ansicr yn ymateb yn gadarnhaol wrth dderbyn cymorth a chysur gan yr ymarferwyr ac yn ymgartrefu'n gyflym. Mae'r mwyafrif yn dangos diddordeb mawr yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad, gan wenu a chwerthin wrth gyflwyno eu hymdrechion i ymarferwyr gyda balchder. Er enghraifft, maent yn mwynhau gwneud cacen gri adeg Dydd Gŵyl Dewi gan ddefnyddio offer i rolio a thorri'r toes ac yn falch iawn o'r hyn maent wedi ei greu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hynod annibynnol. Maent yn gwneud dewisiadau priodol ynglŷn â'u chwarae ac yn hyderus wrth ymdrin ag offer. Ar ddiwedd sesiynau, mae'r plant yn helpu i dacluso'r teganau yn hyderus. Yn ogystal, maent yn dyfalbarhau'n aeddfed ar eu tasgau am gyfnodau priodol. Er enghraifft, wrth wneud patrymau coch, gwyn a gwyrdd gyda'r pasta lliwgar i efelychu logo Mistar Urdd. Maent yn golchi eu dwylo'n annibynnol cyn bwyta unrhyw fwyd ac ar ôl chwarae rhydd.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall, i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

### Gofal a datblygiad:  Da

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn i ddiwallu anghenion plant yn effeithiol. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'n llwyddiannus. Mae ymarferwyr wedi cael hyfforddiant perthnasol ar

gyfer diogelu plant ac yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryder yn seiliedig ar ddiogelu neu amddiffyn plant. Yn dilyn hyfforddiant cyson, mae ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am gymorth cyntaf pediatrig. Mae ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Er enghraifft, maent yn cwblhau rhestr wirio risgiau yn ddyddiol ac yn tacluso'r amgylchedd yn aml i leihau peryglon. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Nodwedd gadarn o'r ddarpariaeth yw'r modd mae ymarferwyr yn trin y plant mewn modd cynnes, cyfeillgar a thyner ac yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, yn gwrando'n astud ar eu storïau, yn parchu eu syniadau ac yn datblygu dealltwriaeth y plant trwy eu holi'n briodol. Maent yn rheoli rhyngweithiadau yn dda, yn canmol plant am eu hymdrechion gan ddefnyddio iaith gadarnhaol a phwrpasol, ac yn eu hannog i fod yn gwrtais a dweud "os gwelwch yn dda" a "diolch".

Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac yn sychu eu trwyn, pan fydd angen. Maent yn gweithredu arferion glanhau cadarn a hylendid da. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos â'r rhieni i annog y teuluoedd i ddarparu bocsys bwyd iach i'w plant.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion a'u diddordebau. O ganlyniad, maent yn ymateb yn dda iawn ac yn sensitif i'w hanghenion. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd ar lefel y plant wrth iddynt siarad â rheini sy'n ansicr neu'n swil. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth gadarn o ofynion y ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n gweithredu arni'n briodol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cymorth pwrpasol ac yn gwneud y mwyaf o gyngor gan yr awdurdod lleol i'w cefnogi i wneud cynnydd da.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell ddosbarth yn un lliwgar a deniadol, sy'n annog plant i fwynhau dysgu. Maent yn ystyried gofynion Cwricwlwm i Gymru wrth ddarparu cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol i'r plant, gan roi cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu eu chwilfrydedd yn barhaus. Maent yn dechrau annog y plant i arwain eu dysgu eu hunain trwy roi cyfleoedd iddynt ddewis yr hyn maent am ei ddysgu ar gychwyn y themâu, a pha weithgareddau maent am roi tro arnynt yn ystod y sesiynau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ddweud beth mae'r thema 'Cymru' yn ei olygu iddynt, cyn sefydlu gweithgareddau fel adeiladu castell o gardfwrdd neu wneud cacen gri o does i ddatblygu'r syniadau hyn. Mae ymarferwyr wedi dechrau rhoi ffocws ar gynllunio ymatebol gan fanteisio ar gyfleoedd priodol sy'n codi'n naturiol yn y chwarae i ddatblygu medrau penodol y plant. Maent yn ystyried diddordebau'r plant ac yn adeiladu'n uniongyrchol ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol. Mae hyn yn sicrhau bod dilyniant priodol ond anffurfiol i'r dysgu.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r (TGCh) plant yn effeithiol. Maent yn gwneud ymgais arbennig i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i blant glywed a defnyddio tafodiaith leol a geirfa ac ymadroddion Cymraeg yn barhaus. Er enghraifft, maent yn defnyddio amser cylch yn

ddyddiol i ymestyn geirfa’r plant ac i adolygu gwaith rhif. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel i sicrhau bod y plant yn defnyddio’r ffurf ieithyddol gywir wrth ymateb i gwestiynau, gan fodelu iaith gywrain yn naturiol iddynt. Gwyddant bryd a sut y mae’n briodol i ymyrryd. O ganlyniad, mae safon iaith lafar y rhan fwyaf o blant yn gywir a safonol.

Hyrwyddir datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Trefnir gweithgareddau hyfryd i’r plant, sy’n eu hannog i fod yn chwilfrydig ac i werthfawrogi rhyfeddodau’r byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn arsylwi ar benbyliaid yn deor, ac yn croesawu anifeiliaid anwes i’r dosbarth i ddysgu am eu hanghenion.

Mae ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol trwy ddarparu gweithgareddau priodol iddynt fel arsylwi ar Genhinen Pedr, peintio llun neu wneud model ohoni, a’i disgrifio ar lafar adeg Dydd Gŵyl Ddewi. Maent hefyd yn cyfoethogi gwybodaeth y plant trwy ymweld â mannau hanesyddol yn lleol, fel Castell Powys a’i erddi.

Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar annog gonestrwydd, tegwch a pharch yn eu holl weithgareddau ac yn sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd, eu hamgylchedd a'u hadnoddau gyda gofal. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro adeg byrbryd, a gwrando ar ei gilydd yn gwrtais yn ystod amser cylch.

Mae ymarferwyr yn cyfathrebu'n llwyddiannus â rhieni a gofalwyr i ganfod eu barn am gryfderau a diddordebau eu plant ynghyd ag unrhyw feysydd y maent yn ystyried y mae angen iddynt eu datblygu. Maent yn arsylwi ac asesu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn diweddaru cofnodion addas yn electronig. Defnyddir y canfyddiadau hyn yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae buddiol sy'n diwallu anghenion a diddordebau y rhan fwyaf o blant. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd tu mewn a thu allan yn ddiogel, yn groesawgar, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o’r neuadd gymunedol leol sydd hefyd yn ffinio â’r ysgol gynradd leol. Mae ganddynt fynediad i gegin, toiledau ac ardal tu allan amgaeedig. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid yn hygyrch ac yn lân, ac yn darparu preifatrwydd ac urddas briodol i'r plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o’r ardal tu allan i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i’r plant chwarae a dysgu. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i’r plant symud o un weithgaredd i’r llall o fewn yr ardal tu mewn. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd rheolaidd iddynt ddysgu yn yr ardal tu allan. Fodd bynnag, nid yw’r lleoliad wedi cael amser i ddatblygu’r ardal allanol yn llawn eto.

Un o gryfderau’r lleoliad yw’r modd y mae arweinwyr yn diweddaru’r asesiadau risg yn bwrpasol ac yn rheolaidd ac yn eu gweithredu’n drwyadl. Mae’r arweinwyr yn ymwybodol iawn o faterion diogelwch; er enghraifft, maent yn cynnal driliau tân rheolaidd. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i’r adeilad ac mae arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle.

Mae arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd tu mewn a thu allan yn briodol gan sicrhau ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous. Yn yr ystafell chwarae, darperir

cyfleoedd i’r plant fwynhau chwarae ag adnoddau mathemategol, creadigol, cymdeithasol, byd bach ac adeiladu. Caiff yr adnoddau hyn eu cadw ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae’r adnoddau’n briodol i oed a datblygiad y plant ac yn eu herio a’u diddanu’n effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd buddiol i’r plant ddefnyddio offer go iawn, er enghraifft llysiau yn y gegin chwarae rôl a llestri tsieina amser byrbryd. Mae esgidiau a dillad addas ar gael i’r plant ar gyfer tywydd anffafriol, sy’n caniatáu iddynt chwarae tu allan, beth bynnag yw'r tywydd. O ganlyniad, mae'r amgylchedd yn galluogi’r plant i wneud dewisiadau da iawn wrth chwarae a dysgu'n annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer Cylch Meithrin Dyffryn Banw. Mae hon yn seiliedig ar sicrhau bod ymarferwyr yn darparu gofal o ansawdd da yn y Gymraeg i blant rhwng blwydd a phum mlwydd oed gan ganolbwyntio ar ddysgu trwy chwarae a sbarduno chwilfrydedd cynhenid ac annibyniaeth y plentyn unigol. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod ymarferwyr yn cydweithio i’w gwireddu mewn amgylchedd hapus a diogel.

Mae arweinwyr yn parchu a gwerthfawrogi gwaith ymarferwyr. Maent yn ystyried eu barn, yn eu cefnogi’n effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu’n broffesiynol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud eu gorau dros y plant a chydymffurfio â’r weledigaeth.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o’r hyn sy’n digwydd o ddydd i ddydd. Mae’n ymweld yn gyson ac yn cefnogi’r arweinydd i sicrhau arweinyddiaeth effeithiol i’r lleoliad. Cefnogir yr unigolyn cyfrifol yn dda yn ei gwaith gan aelodau pwyllgor cydwybodol a gweithgar.

Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae’r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol i rieni/gofalwyr wneud y dewis cywir am ofal eu plant.

Mae gan arweinwyr drefniadau addas i werthuso gwaith y lleoliad ac maent yn eu gweithredu’n briodol i adnabod yn gywir yr hyn sy’n effeithiol ynghyd ag ychydig o feysydd sydd angen eu gwella. Fodd bynnag, nid yw geiriad y blaenoriaethau gwella bob amser yn ddigon clir nac wedi eu seilio digon ar ddysgu neu ddatblygiad y plant. O ganlyniad, mae’n anodd i arweinwyr fesur cynnydd yn eu herbyn.

Mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc a chânt eu trefnu’n effeithlon. Mae eu rolau a chyfrifoldebau yn glir, mae cymarebau da o oedolion i blant ac mae cynlluniau addas wrth gefn rhag ofn y bydd yr arweinydd neu rai o’r ymarferwyr yn absennol. Ceir system effeithiol o oruchwylio a gwerthuso ymarferwyr yn flynyddol sy'n arwain at dargedau priodol y cytunwyd arnynt.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae’r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, yr ysgol gynradd leol y mae’n rhannu adeilad â hi, swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin.

Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth bwysig yn gyson gyda rhieni am ei bolisïau a gweithdrefnau. Gwna hyn trwy ddefnyddio cylchlythyr tymhorol, cofnod cynnydd electronig ar bob plentyn, platfform cyfryngau cymdeithasol caeedig a thrwy siarad â nhw ar ddechrau a diwedd y sesiwn yn ôl yr angen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05 Mai 2023